

Cylch gorchwyl: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Mabwysiadwyd gan y Pwyllgor ar 7 Mehefin 2022

Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 9 Mehefin 2022

Archwilio Cymru yw hunaniaeth ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau i archwilio cyrff cyhoeddus Cymru ac adrodd arnynt. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau i ddarparu adnoddau, megis staff, i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Un o bwyllgorau Swyddfa Archwilio Cymru yw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Cynnwys

Cylch Gorchwyl

Statws	4
Nod	4
Cyfrifoldebau	4
Hawliau	6
Aelodaeth	7
Ysgrifenyddiaeth	7
Cyfarfodydd	7
Mynediad	8
Cyflwyno Adroddiadau	9
Rhaglen fusnes	9
Adolygu perfformiad, hyfforddiant a datblygu	9
Adolygu'r cylch gorchwyl	9
Atodiadau	
Atodiad 1 – Rhaglen fusnes	10
Atodiad 2 – Seiberddiogelwch: rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	12

Cylch Gorchwyl

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Statws

- 1 O dan adran 29 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gall rheolau gweithdrefnol Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau y gall Swyddfa Archwilio Cymru ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau iddynt.
- 2 Yn ei gyfarfod cyntaf ar 23 Hydref 2013, fe sefydlodd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg i gefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu trwy adolygu cynwysfawredd a dibynadwyedd sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2014, fe benderfynodd y Bwrdd newid yr enw i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Nod

- 3 Nod y Pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd pa un a yw trefniadau archwilio a sicrwydd risg Swyddfa Archwilio Cymru:
 - a) yn ategu ei nodau strategol;
 - b) yn ei gwneud yn bosibl cynnal busnes yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; ac
 - c) yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol.
- 4 Mae'r Pwyllgor yn cyrraedd y nod hwn trwy:
 - a) adolygu cynwysfawredd a dibynadwyedd sicrwydd o ran diwallu anghenion y Bwrdd ac anghenion y Swyddog Cyfrifyddu;
 - b) adolygu uniondeb y datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol, gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol;
 - c) darparu barn ynglŷn â pha mor dda y caiff y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau ac wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o ran stiwardiaeth ac atebolrwydd.

Cyfrifoldebau

- 5 Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch cynwysfawredd a dibynadwyedd trefniadau sicrwydd Swyddfa Archwilio Cymru gan gynnwys:
 - a) y trefniadau asesu risg a rheoli risg, yn arbennig adolygu'r canlynol a chynghori yn eu cylch –
 - (i) y strategaeth risg, gan gynnwys priodoldeb dull Swyddfa Archwilio Cymru o bennu ei pharodrwydd i dderbyn risg

- (ii) prosesau asesu risg cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n goleuo prosesau penderfynu gweithredol
- (iii) gallu Swyddfa Archwilio Cymru i adnabod a rheoli risg
- (iv) cylch gwaith y swyddogaeth rheoli risg, gan gynnwys ei mynediad at adnoddau a gwybodaeth i gyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol, heb gyfyngiadau gan y rheolwyr na chyfyngiadau eraill
- (v) ymateboldeb y rheolwyr i asesiadau risg;
- b) rheoli risg seiber, gan gynnwys strategaethau priodol i liniaru risg (atodiad 2);
- c) uniondeb y datganiadau ariannol gan gynnwys –
 - (i) cysondeb polisïau cyfrifyddu ac unrhyw newidiadau iddynt
 - (ii) y dulliau a ddefnyddir i roi cyfrif am drafodion arwyddocaol neu anarferol lle mae dulliau gwahanol yn bosibl
 - (iii) pa un a yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi dilyn safonau cyfrifyddu priodol ac wedi llunio amcangyfrifon a dyfarniadau priodol gan ystyried barn yr archwilydd allanol
 - (iv) eglurder datgeliadau yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r cyd-destun y gwneir y datgeliadau hynny ynddo
 - (v) yr holl wybodaeth berthnasol a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol
 - (vi) arsylwadau a sicrwydd a geir arnynt o weithgarwch a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol;
- d) yr amgylchedd rheolaeth fewnol, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau ariannol mewnol a systemau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru a'r datganiadau sydd i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon
- e) trefniadau llywodraethu, yn arbennig –
 - (i) digonoldeb a diogelwch trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru i'w chyflogaion a'i chontractwyr godi pryderon, yn gyfrinachol, ynghylch camweddau posibl mewn prosesau adrodd ariannol neu faterion eraill, gan gynnwys pa un a ydynt yn caniatáu ymchwilio i faterion o'r fath mewn modd cymesur ac annibynnol a champau dilynol priodol
 - (ii) gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer atal a chanfod twyll;
 - (iii) systemau a rheolaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer atal llwgrwobrwyo a chael adroddiadau ar ddiffyg cydymffurfio
 - (iv) adroddiadau rheolaidd gan y Swyddog Adrodd am Wyngalchu Arian a digonoldeb ac effeithiolrwydd systemau a rheolaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer atal gwyngalchu arian.
- f) y trefniadau archwilio mewnol, yn arbennig –
 - (i) effeithiolrwydd swyddogaeth archwilio mewnol Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyd-destun y system rheoli risg ar y cyfan

- (ii) penodi a diswyddo pennaeth y swyddogaeth archwilio mewnol
 - (iii) cylch gwaith y swyddogaeth archwilio mewnol gan gynnwys ei mynediad at adnoddau a gwybodaeth i gyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol, heb gyfyngiadau gan y rheolwyr na chyfyngiadau eraill
 - (iv) y cynllun archwilio mewnol blynyddol
 - (v) adroddiadau a gyfeirir at y Pwyllgor gan yr archwilydd mewnol
 - (vi) ymatebolrwydd y rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd mewnol;
- g) y trefniadau archwilio allanol, yn arbennig –
- (i) y broses o benodi archwilwyr allanol, er mwyn i'r Bwrdd gyflwyno argymhelliad ar gyfer penodiad o'r fath i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru
 - (ii) y berthynas â'r archwilydd allanol
 - (iii) gwneud sylwadau ar delerau ymrwymo a chwmpas yr archwiliad
 - (iv) y cynllun archwilio blynyddol, gan sicrhau ei fod yn gyson â chwmpas yr ymrwymiad archwilio
 - (v) adolygu canfyddiadau'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw faterion pwysig a gododd, unrhyw ddyfarniadau cyfrifyddu ac archwilio, lefelau'r gwallau a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad ac effeithiolrwydd yr archwiliad
 - (vi) adolygu llythyrau sylwadau'r rheolwyr at yr archwilydd allanol
 - (vii) adolygu llythyr y rheolwyr ac ymateb y rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd
 - (viii) adolygu'r polisi ar ddarparu gwasanaethau heblaw archwilio gan yr archwilydd allanol, gan ystyried unrhyw ganllawiau moesegol perthnasol.

6 Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gais, neu fel y bo'n briodol yn ei dyb ef.

Hawliau

- 7 Mae'r Bwrdd yn awdurdodi'r Pwyllgor i wneud y canlynol:
- a) ymchwilio i unrhyw weithgarwch o fewn ei gylch gorchwyl a gwneud sylwadau a chynghori ar drefniadau llywodraethu yn Swyddfa Archwilio Cymru;
 - b) cael unrhyw ddogfennau neu wybodaeth arall gan staff Swyddfa Archwilio Cymru y mae eu hangen arno i gyflawni ei ddyletswyddau;
 - c) gyda chytundeb y Bwrdd, cael cyngor allanol, arbenigol fel y barno'n angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau gan gynnwys cael gwybodaeth

ddibynadwy, gyfoes am drefniadau archwilio a rheoli risg mewn sefydliadau eraill.

Aelodaeth

8 Mae'r Pwyllgor yn cynnwys:

- Ian Rees - Aelod anweithredol o'r Bwrdd
- Anne Beegan - Aelod o'r Bwrdd a etholwyd o blith y Cyflogeion
- Andrew Clark - Aelod allanol annibynnol
- David Francis - Aelod anweithredol o'r Bwrdd ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

9 Mae'r Bwrdd wedi penodi Ian Rees i Gadeirio'r Pwyllgor.

10 Caiff penodiadau i'r Pwyllgor eu pennu gan y Bwrdd ac maent am hyd at bedair blynedd a gellir rhoi estyniad am gyfnod pellach o hyd at bedair blynedd. Wrth benodi'r Cadeirydd ac aelodau bydd y Bwrdd yn sicrhau bod y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd yn meddu ar yr ystod o sgiliau y mae eu hangen i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaeth ar y cyfan.

Ysgrifenyddiaeth

11 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor ac mae'n gyfrifol am:

- a) sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei gyfansoddi a'i gynghori'n briodol a bod cydlynu clir rhyngddo ef, y Bwrdd a phwyllgorau eraill y Bwrdd;
- b) cynnal cyswllt â'r Cadeirydd ar y rhaglen waith;
- c) sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth a phapurau mewn modd amserol i'w gwneud yn bosibl rhoi ystyriaeth lawn a phriodol i'r materion;
- d) paratoi cofnodion drafft cyfarfodydd i gael eu cymeradwyo gan y Cadeirydd cyn iddynt gael eu dosbarthu i'r aelodau;
- e) cynnal cofnodion priodol o fusnes y Pwyllgor;
- f) drafftio deunydd ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor; ac
- g) rhoi unrhyw gymorth ymarferol angenrheidiol arall.

Cyfarfodydd

12 Mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor gynnull cyfarfodydd ychwanegol fel y barno'n angenrheidiol. Gall aelodau'r Pwyllgor, Cadeirydd y Bwrdd, y Swyddog Cyfrifyddu, y Pennaeth Archwilio Mewnol neu'r archwilwyr allanol ofyn i'r Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol os ydynt yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Ni fydd y Cadeirydd yn gwrthod unrhyw geisiadau rhesymol.

13 Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu galw gan ei ysgrifennydd ar gais y Cadeirydd. Oni bai y cytunir fel arall, bydd yr ysgrifennydd yn anfon rhybudd at yr aelodau o bob

cyfarfod gan gadarnhau'r lleoliad, dyddiad ac amser ynghyd ag agenda o eitemau i gael eu trafod yn ddim hwyrach na phum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd papurau ategol yn cael eu hanfon yr un pryd.

- 14 Dau fydd y cworwm sy'n angenrheidiol i drafod busnes (y Cadeirydd ac un arall). Dylai un o gyfarfodydd y Pwyllgor a gynullwyd yn briodol ac y mae cworwm yn bresennol ynddo fod yn gymwys i gyflawni'r holl neu unrhyw awdurdodau, pwerau a disgresiynau a ymddiriedwyd i'r Pwyllgor neu sydd i'w cyflawni gan y Pwyllgor. Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor (ac ar yr amod bod yr holl aelodau eraill yn bresennol), gall yr aelodau sy'n weddill ethol un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod.
- 15 Gall aelodau nad ydynt yn gallu bod yn bresennol godi unrhyw bwyntiau gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef.
- 16 Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu mynychu gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y Swyddog Cyfrifyddu, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid, y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd archwilio allanol. Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddogion eraill yn Swyddfa Archwilio Cymru fod yn bresennol i'w gynorthwyo gyda'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.
- 17 Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai neu bob un o'r rhai sydd fel arfer yn mynychu ond nad ydynt yn aelodau adael cyfarfod cyfan neu unrhyw ran o gyfarfod i hwyluso trafodaeth agored a didwyll am faterion penodol; bydd trafodaethau o'r fath yn cael eu cofnodi.
- 18 Bydd pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn darparu ar gyfer trafodaethau preifat gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol a'r cynrychiolydd archwilio allanol.
- 19 Gall y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i aelodau'r Pwyllgor ddarparu cyngor pellach y tu allan i gylchoedd y cyfarfodydd ar faterion penodol o bryd i'w gilydd.
- 20 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfathrebu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol i gydgyssylltu eu gweithgareddau a chymau gweithredu fel y bo'n briodol.
- 21 Dylai aelod o'r Pwyllgor neu rywun a fydd yn bresennol ynddo sy'n dod yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol mewn perthynas â materion a drafodir gan y Pwyllgor roi gwybod i'r Cadeirydd ymlaen llaw neu, os nad yw hyn yn bosibl, datgan hynny yn y cyfarfod a, lle y bo angen, gadael tra bo'r eitem berthnasol ar yr agenda'n cael ei thrafod.
- 22 Trwy eithriad, gall y Pwyllgor gael eitemau busnes y tu allan i gylch arferol cyfarfodydd, er enghraifft os ceir mater annisgwyl sy'n mynnu ymateb brys neu ar unwaith. Bydd y trefniadau ar gyfer cynnull cworwm, dosbarthu papurau a chofnodi ystyriaethau'r Pwyllgor a nodir yn y cylch gorchwyl hwn yn berthnasol.

Mynediad

- 23 Gall Cadeirydd y Pwyllgor ofyn am drafodaethau preifat gyda Chadeirydd y Bwrdd, y Swyddog Cyfrifyddu, y Pennaeth Archwilio Mewnol, staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r cynrychiolydd archwilio allanol fel y bo'n briodol.
- 24 Mae gan y Cadeirydd hefyd fynediad uniongyrchol at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd a gall ei hysbysu ynghylch materion sy'n achosi pryder. Cyn arfer yr hawl hon, bydd y Cadeirydd yn cynnal cyswllt fel y bo'n briodol â Chadeiryddion y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol i drafod y pryderon a'r dull gweithredu.
- 25 Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r cynrychiolydd archwilio allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Cyflwyno Adroddiadau

- 26 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig ffurfiol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar ôl pob cyfarfod.
- 27 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ysgrifenedig ffurfiol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Bydd amseriad yr adroddiad yn cefnogi'r broses o gwblhau'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Rhaglen fusnes

- 28 Mae Atodiad 1 yn crynhoi rhaglen fusnes y Pwyllgor a gaiff ei chadarnhau ym mhob cyfarfod.

Adolygu perfformiad, hyfforddiant a datblygu

- 29 Bydd y Cadeirydd yn adolygu perfformiad aelodau'n flynyddol yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad a sefydlwyd at y diben hwnnw. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn adolygu perfformiad y Cadeirydd yn flynyddol.
- 30 Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr angen am broses sefydlu, hyfforddiant a datblygu ar sail barhaus.
- 31 Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd ynghylch unrhyw ddiffygion yn ôl pob golwg y bydd o bosibl yn eu hadnabod o bryd i'w gilydd yn sgiliau cyfunol ei aelodaeth.

Adolygu'r cylch gorchwyl

- 32 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r cylch gorchwyl hwn ac yn asesu ei effeithiolrwydd yn flynyddol, gan adrodd ar y canlyniad yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer y Bwrdd.

Atodiad 1

Y rhaglen fusnes

- 1 Mae rhaglen fusnes y Pwyllgor yn dilyn cylch blynyddol o bedwar cyfarfod. Canllaw yw'r rhaglen a nodir isod ac nid yw'n rhagwahardd addasiadau i'r amseriad yn ystod y flwyddyn nac ystyriaeth i fusnes ychwanegol a allai godi.
- 2 Eitemau sefydlog ar holl agendâu'r Pwyllgor yw:
 - a) cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor i gael eu cymeradwyo;
 - b) y log o gamau gweithredu sy'n codi o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor wedi'i ddiweddarau fel y bo'n briodol (i'w gymryd fel materion yn codi);
 - c) rhaglen waith y Pwyllgor i'w hadolygu'n barhaus;
 - d) adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n crynhoi –
 - gwaith a gyflawnwyd (a chymhariaeth â gwaith a gynlluniwyd)
 - unrhyw newidiadau i'r strategaeth archwilio mewnol a'r cynllun blynyddol
 - materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o waith archwilio mewnol
 - unrhyw faterion o ran darparu adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion archwilio mewnol;
 - e) adroddiadau archwilio mewnol yn unol â'r amserlen a sefydlwyd gan y cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn (gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn). Mae adroddiadau'n cynnwys ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion;
 - f) adroddiad ar gynnydd (lle y bo'n briodol) gan y cynrychiolydd archwilio allanol, sy'n crynhoi gwaith a wnaed a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg;
 - g) adolygiad o risgiau strategol a ddefnyddir gan y Pwyllgor i archwilio un risg strategol yn fanwl i benderfynu a yw'r trefniadau rheoli risg yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol;
 - h) asesiad o berfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol.
- 3 Mae'r cylch busnes amlinellol yn cynnwys:

Cyfarfod 1 (Chwefror)

- yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft;
- y cynllun archwilio allanol ar gyfer yr adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- polisiau cyfrifyddu (gan gynnwys unrhyw newidiadau arwyddocaol) a dyfarniadau;
- y strategaeth archwilio mewnol a'r cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod;
- y trefniadau atal twyll;
- y gofrestr risgiau gweithredol;
- y gofrestr o weithredoedd tendr sengl a gwariant ar wasanaethau ymgynghorol ym maes rheoli;

- amlinelliad o adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Bwrdd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer gwerthuso perfformiad y Pwyllgor.

Cyfarfod 2 (Mehefin)

- yr adroddiad blynyddol archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, gan gynnwys barn y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- tracio argymhellion archwilio mewnol a gwaith dilynol arnynt;
- yr adroddiad datgan annibyniaeth blynyddol;
- yr adolygiad blynyddol o drefniadau chwythu'r chwiban;
- yr adolygiad blynyddol o lywodraethu gwybodaeth (adroddiad SIRO);
- adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Bwrdd, gan gynnwys y canlynol ar gyfer y Pwyllgor:
 - ei gylch gorchwyl i gael ei adolygu, a
 - hunanasesiad o'i berfformiad.
- adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol;
- adroddiad yr archwilydd allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (ISA260); a
- llythyr sylwadau'r archwilydd allanol.

Cyfarfod 3 (Medi)

- y gofrestr risgiau gweithredol;
- canlyniad yr ymarfer dysgu ar ôl prosiect ar yr adroddiad blynyddol a chyfrifon;
- adroddiad y swyddog adrodd am wyngalchu arian;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol; a hefyd
- yr amserlen amlinellol ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Cyfarfod 4 (Rhagfyr)

- y strategaeth risgiau a threfniadau rheoli risg; a hefyd
- tracio argymhellion archwilio mewnol a gwaith dilynol arnynt.

Atodiad 2

Seiberddiogelwch: rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Detholiad o Lawlyfr Trysorlys E.M. ar Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg

- 1 Rôl pwyllgorau archwilio a sicrwydd risg yw darparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd bod y sefydliad yn rheoli ei risg seiber yn iawn gan gynnwys strategaethau priodol i liniaru risg. Nid yw hyn yn ei gwneud yn angenrheidiol deall manylion llawn y dechnoleg gysylltiedig; gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gadarnhau bod y fframwaith priodol yn ei le a bod mentrau monitro a gwella parhaus yn cael eu mabwysiadu a'u cynnal. Mae'n bwysig deall goddefiant y sefydliad o risg a gwerthuso'r penderfyniadau ynglŷn â risg a wnaed gan y rheolwyr. Wrth archwilio cyfleoedd i rannu gwybodaeth ac i ddefnyddio technoleg, dylai hynny gael ei arwain gan barodrwydd y sefydliad i dderbyn risg.
- 2 Yn arbennig, i asesu seibergadernid y sefydliad dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg werthuso pa un a yw'r sefydliad:

Llywodraethu

- wedi rhoi rheolaethau ar waith i baratoi ar gyfer, gwarchod rhag, canfod ac ymateb i ymosodiadau seiber gan gynnwys rheoli canlyniadau digwyddiad seiberddiogelwch.
- yn meddu ar ddull o fonitro effeithiolrwydd eu rheolaethau seiberddiogelwch, gan gynnwys lle y bo'n briodol, profi, adolygu a sicrhau rheolaethau o'r fath yn annibynnol.
- wedi adnabod yr asedau gwybodaeth critigol y mae'n dymuno'u gwarchod rhag ymosodiad seiber a phwy sy'n gyfrifol amdanynt – boed yn ddata ariannol, yn ddata gweithredol, yn ddata cyflogeion, yn ddata cwsmeriaid neu'n eiddo deallusol.
- yn meddu ar ffordd o adnabod o chytuno ar lefel y risg o ymosodiad seiber y mae'r sefydliad yn barod i'w goddef ar gyfer ased gwybodaeth penodol; pa lefel o risg i seiberddiogelwch sy'n cael ei hystyried yn dderbyniol?
- yn meddu ar fframwaith risgiau gweithredol a chynllun archwilio mewnol sy'n cwmpasu gwahanol feysydd o ran seiberddiogelwch, nid dim ond yn canolbwyntio ar weithrediadau TG.

Cudd-wybodaeth am Fygythiadau; Trydydd Partïon a'r Gadwyn Gyflenwi

- yn deall pa ddata sy'n gadael y sefydliad a beth yw pen ei daith, a pha weithgareddau monitro cysylltiedig sydd yn eu lle.
- wedi sefydlu prosesau cudd-wybodaeth i ddeall y bygythiad i asedau'r sefydliad gan gynnwys deall yn fanwl pa gyflenwyr/partneriaid sy'n cysylltu â'r sefydliad a sut.

- wedi profi cynnydd yn nifer yr achosion o danseilio diogelwch gwybodaeth.

Strwythurau ac Adnoddau

- yn meddu ar y sgiliau a'r profiad cywir yn fewnol i gwmpasu'r holl feysydd perthnasol.
- wedi sefydlu'r strwythur rheoli cywir, gan gynnwys yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

Ymateb i Ddigwyddiadau

- yn meddu ar gynllun ymateb wedi'i ddiweddarau ar gyfer digwyddiadau seiber sydd wedi cael ei ymarfer gan gynnwys camau gweithredu ar wersi a ddysgwyd.

Pobl, Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

- yn meddu ar raglenni hyfforddi a datblygu i addysgu'r gweithlu am risgiau seiber a chyfrifoldebau unigol.
- yn meddu ar raglen o welliant parhaus, neu lle y bo angen, o drawsnewid, i baru'r bygythiad seiber newidiol â dangosyddion perfformiad priodol.

- 3 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn defnyddio Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y sefydliad i ddarparu sicrwydd ynghylch y materion hyn a materion eraill trwy adolygu adroddiad blynyddol gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, gan gynnwys cynnydd gydag aeddfedrwydd y sefydliad ym maes risg gwybodaeth a seiberddiogelwch, gyda hynny'n cael ei ategu gan ddiweddariadau o bryd i'w gilydd lle y bo'n briodol.
- 4 Bydd yr adolygiad o'r adroddiad blynyddol gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn rhan o'r broses sicrwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd y Pwyllgor yn trafod gyda'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg eu cynnwys yn ei argymhelliad ar gyfer y Datganiad Llywodraethu.
- 5 Opsiwn pellach i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw ystyried a allai un o'i aelodau ddod yn hyrwyddwr seiberddiogelwch yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (a'r Bwrdd os yw'n aelod) a chefnogi'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.